

Polisi Gwrth-fwlio Disgyblion
Adran Addysg Gwynedd

1.0 Datganiad polisi

Y mae Adran Addysg Cyngor Gwynedd yn diffinio bwlio fel Ymddygiad ymosodol neu sarhaus gan unigolyn neu grŵp, sy'n aml yn cael ei ailadrodd dros gyfnod, sy'n creu dolur neu niwed yn fwriadol. Mae ymchwil yn dangos y gall bwlio gael effaith ddinistriol ar fywydau pobl ifanc. I rai, gall greu effeithiau tymor hir sy'n achosi gofid a niwed i ddatblygiad cymdeithasol ac emosiynol.

Y mae perthynas rhwng cyrhaeddiad addysgol, presenoldeb a bodlondeb emosiynol plant a phobl ifanc yn gynyddol gael ei chydabod. Rhoddir cryn bwyslais ar sicrhau bod disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol am resymau addysgol yn ogystal â moesol. Yn sgil hyn y mae'r Adran Addysg yn rhoi blaenoriaeth i sicrhau bod bwlio yn cael ei leihau o fewn holl ysgolion yr Awdurdod. Y mae'n fwriad felly monitro lefelau bwlio er mwyn gallu lleoli adnoddau a chefnogaeth yr Awdurdod.

Mae'n ofynnol bod gan ysgolion bolisiau gwrth-fwlio sy'n adlewyrchu barn disgyblion ac yn amlinellu pa gamau y bydd yr ysgol yn eu cymryd i leihau bwlio ac i ddelio ag achosion. Dylai polisi yr ysgol gynnwys cyfeiriad at hiliaeth ac anabledd. Gwneir arfarniad achlysurol o'r ddarpariaeth gyfredol trwy ymweliadau ffurfiol Ymgynghorwyr a Swyddogion ag ysgolion yr Awdurdod.

2.0 Mathau o fwlio

Mae sawl math o fwlio. Er mwyn monitro lefelau a natur y bwlio ar draws yr Awdurdod fe fydd Gwasanaeth Disgyblion a Chynhwysiad yr Adran Addysg yn categoreiddio'r bwlio. Fe all bwlio fod yn un neu yn gymysgedd o'r categorïau isod:

- Corfforol – taro, cicio, dwyn, cuddio eiddo, trais rhywiol ac aflonyddwch.
- Geiriol (Llafar) – galw enwau, sarhau, bychanu
- Emosiynol – Cychwyn sibrydion di-sail, peidio siarad â rhywun, eithrio o grwpiau.

Yn ogystal â'r categorïau cyffredinol uchod y mae'r Gwasanaeth Ysgolion yn monitro lefelau o fwlio yn y categorïau penodol isod:

- Technolegol- anfon negeseuon maleisus drwy e-bost, sefydlu blog maleisus ei natur neu ddanfon testun neu neges faleisus ar ffôn symudol (gweler Canllaw Diogelwch Technolegol).
- Homoffobaidd - gall fod yn fwlio corfforol, geiriol neu emosiynol ar sail rhywioldeb honedig neu beidio.
- Hiliol - gall fod yn fwlio corfforol, geiriol neu emosiynol ar sail hil.
- Arall – bwlio ar sail anabledd corfforol neu feddyliol, nodwedddion iechyd neu unrhyw nodweddd y gellir ei diffinio yn eglur.

Fe fydd Swyddogion Lles yn casglu'r wybodaeth am y gwahanol gategorïau o fwlio uchod yn ystod eu hymweliadau â'r ysgolion. Pwrpas casglu'r wybodaeth yw galluogi'r Awdurdod i leoli adnoddau prin lle mae'r angen mwyaf.

Gall achosion difrifol o fwlio, e.e. aflonyddu neu drais rhywiol arwain at gyfeiriad at Dîm Amddiffyn Plant y Gwasanaethau Cymdeithasol. Yn y cyd-destun hwn, mae angen sicrhau bod cysylltiad rhwng y polisi gwrth-fwlio a pholisi amddiffyn plant yr ysgol. Dylid sicrhau fod y ddau bolisi yn dilyn Canllawiau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008.

3.0 Cyfrifoldebau yr Adran Addysg

3.1 Rôl y Gwasanaeth Lles

Mae'r Gwasanaeth Lles wedi ymrwymo i sicrhau fod bob plentyn yn cael cyfle i dderbyn addysg mewn awyrgylch sydd yn ddiogel ac yn rhydd o unrhyw fath o fwlio, bygythiad neu aflonyddiad.

Er mwyn hyrwyddo hyn, mae pob Swyddog Lles Addysg wedi derbyn hyfforddiant ac wedi cyfrannu tuag at ddatblygu polisiâu gwrth-fwlio yr Awdurdod a'r arweiniad a gyflwynir i ysgolion.

Pan yn briodol, bydd y Gwasanaeth Lles yn ymwneud ag achosion unigol gan anelu i ddatrys y sefyllfa sy'n poeni'r person ifanc trwy: -

- sicrhau bod ysgolion yn cadw at unrhyw bolisi perthnasol.
- adnabod ffactorau sy'n gefndirol i'r bwlio
- weithredu fel cyfryngwr annibynnol
- gefnogi pobl ifanc sy'n cael eu bwlio
- ddarparu cyngor arbenigol i ysgolion, rhieni a disgybl

Y mae'r Swyddog Lles lleol yn casglu data ynglŷn â sefyllfa bwlio cyffredinol o fewn yr ysgol yn ystod ei ymweliad. Pwrpas casglu'r data yw galluogi'r Awdurdod i leoli adnoddau prin le mae'r angen mwyaf.

3.2 Rôl Y Gwasanaeth Cynnal Ymddygiad

Y mae athrawon cynradd ar gael i ymweld ag ysgolion i drafod achosion penodol efo penaethiaid / athrawon dosbarth / disgyblion. Yn benodol ar gyfer y sector cynradd ceir pecynnau "Buarth Braf" ar gael i ysgolion sy'n rhoi sylw i'r pwnc.

Y mae'r Gwasanaeth yn cyfeirio at fwlio yn ystod Hyfforddiant Mewn Swydd gyda chymorthyddion ac athrawon er mwyn trafod:

- pam fod plant yn bwlio
- adnabod yr arwyddion fod plant yn cael eu bwlio.

Yn yr uwchradd ceir Unedau Cylchdro CA3 sy'n darparu gwasanaeth therapiwtig trwy raglen SEAL (Social and Emotional Aspects of Learning) ar gyfer delio â disgyblion sy'n bwlio yn ogystal â rhaglen ar wahân ar gyfer disgyblion sy'n dioddef o fwlio.

Y mae staff ar gael i weithio ar ddatblygu empathi a sgiliau cymdeithasol disgyblion gwaharddedig CA4 sy'n arddangos patrwm o fwlio parhaus.

3.3 Rôl Y Gwasanaeth Cwnsela

Y mae gwasanaeth cwnsela proffesiynol ar gael i ddisgyblion uwchradd. Gall cwnselydd a hyfforddwyd gynorthwyo dioddefwr neu fwli i ystyried ffyrdd iachach o ffurfio cysylltiadau ac i edrych ar faterion yn ymwneud â dichter a goddefoldeb. Gellir hefyd ymdrin â diffyg hunan-dyb, ymddiriedaeth a hyder. Gall cwnsela fod yn ddefnyddiol i sefydlu patrymau meddwl mwy cadarnhaol ac i ymchwilio i ambell i gred afiach.

3.4 Rôl Cwmni CYNNAL

Nod y gwasanaeth ymgynghorol (Cynnal) ym maes gwrth-fwlio yw darparu gwybodaeth ar ddatblygiadau, strategaethau ac arferion da i ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig yr AALL. Ymgorfforir y gwaith hwn yn bennaf trwy ddarpariaeth Cynnal ym maes Addysg Bersonol a Chymdeithasol sy'n cynnwys y rhaglen hyfforddiant mewn swydd, fforymau a grwpiau trafod ac ymweliadau gan y Tîm Ymgynghorol. Trwy gyfuniad o'r uchod hyrwyddir yr elfennau a ganlyn:

- ehangu ac addasu'r cwricwlwm i gwrdd â gofynion yr ystod o ddysgwyr
- cefnogi uwch dîm rheoli i adolygu, mireinio a chryfhau polisiau, gweithdrefnau a strwythurau ar gyfer hyrwyddo ymddygiad da
- cefnogi uwch dîm rheoli i adolygu, mireinio a chryfhau polisiau, gweithdrefnau a strwythurau gwrth fwlio
- cefnogi athrawon ac adrannau mewn technegau hyrwyddo ymddygiad da a gwrth-fwlio (e.e. datrys problemau, amser cylch, blychau bwrw bol)
- hyrwyddo gwaith cynghorau ysgol a strategaethau gwranddo ar lais y plentyn
- defnydd o arddulliau dysgu ac addysgu heriol
- defnydd effeithiol o asesu ar gyfer dysgu

3.5 Rôl Y Cynllun 'Ysgolion Iach'

Mae cynllun 'Ysgolion Iach' Gwynedd yn cael ei reoli mewn partneriaeth gyda Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol Cymru, Cyngor Gwynedd, CYNNAL a'r Bwrdd Iechyd Lleol.

Mae'r cynllun yn galluogi ysgolion i gyfrannu'n bositif tuag at iechyd a lles eu disgyblion, athrawon a'r gymuned ehangach drwy ddatblygu amgylchedd sy'n hyrwyddo iechyd.

Mae 'Ysgolion Iach' yn cyflwyno agweddau iechyd a lles drwy'r

- Cwricwlwm Cenedlaethol
- Cwricwlwm amgen ac ethos ysgol

- Datblygu ar y cysylltiadau sydd yn bodoli eisoes rhwng y cartref, y gymuned ac asiantaethau arbenigol.

O fewn y cynllun ceir 10 pwynt. Y mae Pwynt 3 yn golygu y dylai ysgol weithredu i atgyfnerthu hunan werth a hyrwyddo iechyd meddwl yr holl ddisgyblion. Rhoddir felly bwyslais ar ddatblygu polisi gwrth-fwlio effeithiol fel rhan allweddol o'r cynllun. Y mae'r cynllun yn cydweithio â nifer o asiantaethau gwirfoddol yn y maes er mwyn sicrhau cymorth rhagweithiol i ysgolion o ran sefydlu diwylliant yn erbyn bwlio.

